Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Adroddiad Blynyddol
## 2023–24

## Aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
## Ebrill 2023 – Mawrth 2024



Tony Young
(Cadeirydd)



Lin Slater
(Is-gadeirydd)



Tessa Hodgson*



Carys James



Des Mannion



Artie Meakin

** Ymddiswyddodd Tessa Hodgson o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024; mae'r lle ar y Bwrdd yn dal i fod yn wag a bydd gwaith recriwtio'n digwydd yn ystod 2025*

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... 4

**Cynnydd yn erbyn y 3 neges allweddol ar gyfer diogelu yn ystod 2023-2024** .......... 5

**Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol** .......... 7

**5 Cwestiwn Allweddol: Themâu Cenedlaethol o'r Byrddau Rhanbarthol 2023-24** .......... 9

**Partneriaeth Strategol 3 blynedd ar gyfer Datblygu Diogelu** .......... 14

**Ymrwymiadau'r Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer 2024-2027: Cydbwysedd rhwng parhad a datblygiad** .......... 16

**Gwaith y Bwrdd Cenedlaethol yn ystod 2023-2024 mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol** .......... 18

**Argymhellion i Weinidogion 2023-2024 ac adrodd ar gynnydd** .......... 30

**Argymhellion i Weinidogion 2024** .......... 33

# Cyflwyniad

**Mae'n bleser gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-2024.**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn (2023-24) yn adlewyrchu gwaith a chyflawniadau'r Bwrdd yn ail flwyddyn (2023-24) ei bedwerydd tymor ond mae hefyd yn ystyried y gwaith a wnaed yn ystod 6 mis cyntaf y flwyddyn gyfredol, adeg ysgrifennu'r adroddiad (Hydref 2024), ac agweddau ar gynlluniau'r Bwrdd ar gyfer 2025-27.

Cyn cyflwyno ei adroddiad, mae'r Bwrdd yn manteisio ar y cyfle hwn i gydnabod cyfraniad Tessa Hodgson, a ymddiswyddodd o'r bwrdd ym mis Mehefin 2024, oherwydd y galwadau a oedd arni o ganlyniad i'w rôl arwain bwysig mewn llywodraeth leol. A hithau'n aelod gwerthfawr o'r bwrdd ers 2019, cyflawnodd Tessa amrywiaeth o rolau pwysig ar ran y Bwrdd. Yn bwysicach efallai, roedd Tessa yn aml yn ffynhonnell cyngor doeth a sylwadau craff, yn enwedig wrth ein hatgoffa ynghylch arwyddocâd y profiad y mae plant, teuluoedd a'r cyhoedd yn cael ei gael o waith diogelu a'u dealltwriaeth ohono.

Wrth adolygu blwyddyn ddiogelu 2023-24, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (y Bwrdd Cenedlaethol) wedi defnyddio ystod eang o ffynonellau gwybodaeth, ac mae gwaith y 6 Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi bod yn arbennig o bwysig. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi gwneud defnydd helaeth o waith y partner ymchwil a datblygu annibynnol a gomisiynwyd gennym, sef yr Athro Michelle McManus a'i thîm o Brifysgol Metropolitan Manceinion, gan gynnwys, yn bwysicaf oll, eu dadansoddiad thematig cenedlaethol, **Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth, Dadansoddiad thematig o adolygiadau ymarfer plant yng Nghymr**u a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023 (McManus M, Ball E, Almond L, Prifysgol Metropolitan Manceinion, 2023). Mae'r adroddiad hwn wedi ychwanegu'n sylweddol at ein gallu i ddeall y darlun cenedlaethol presennol yng Nghymru, o ran effeithiolrwydd, effaith ac ansawdd systemau ac ymarfer diogelu.

# 3 neges allweddol ar gyfer diogelu – cynnydd yn ystod 2023-24

Yn adroddiad blynyddol blaenorol y Bwrdd (2022-2023) nodwyd tair neges allweddol ar gyfer diogelu. Ar ôl adolygu Adroddiadau Blynyddol 2023-24 pob un o'r 6 Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â phob Bwrdd yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym yn rhoi sylwadau isod ar y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn o ran mynd i'r afael â'r themâu cymhleth hyn.

## Lefel y galw, cymhlethdod a chapasiti

Mae lefel a chymhlethdod yr angen a brofir gan deuluoedd yn parhau i fod ar eu huchaf erioed ac mae pob asiantaeth yn adrodd bod twf yn lefel yr angen yn parhau'n ddi-baid. Mae hyn, yn ei dro, yn parhau i greu galw newydd sylweddol am wasanaethau diogelu ataliol ac adferol yn y rhan fwyaf o ardaloedd Byrddau Rhanbarthol, os nad pob un ohonynt. Mae'r darlun o ran gwytnwch y gweithlu diogelu yr un mor anobeithiol, gydag adroddiadau bod hon yn her barhaus a chritigol. Gyda'i gilydd, mae'r ansefydlogrwydd a welir wrth i'r ddau ddimensiwn mwyaf sylfaenol ar gyfer effeithiolrwydd diogelu gyd-ddigwydd fel hyn yn y modd gofidus hwn, yn dal i beri pryder mawr ac mae'n rhaid gofyn a oes angen i lywodraeth ymyrryd ar fwy o frys ac ar lefel gwantwm i fynd i'r afael â thlodi a gwytnwch y gweithlu.

### Cynnydd yn ystod 2023-24

Er bod Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cyflwyno tystiolaeth o un neu ddwy enghraifft ragorol o ymyriadau y bwriadwyd iddynt fynd i'r afael â heriau'r gweithlu, mae'r rhain yn tueddu i fod yn brin; at ei gilydd ar draws Cymru gyfan, ni fu unrhyw newid mesuradwy yn yr asesiad a gofnodwyd yn 2022-23.

## Deall effaith ac effeithiolrwydd diogelu

Mae'r consenswS cyffredinol, ynghylch yr angen i gytuno ar ddull a rennir yn eang o fesur a chofnodi effeithiolrwydd diogelu ar draws Cymru gyfan, yn parhau i fod yn elfen allweddol o waith y Bwrdd.

### Cynnydd yn ystod 2023-24

Mae pob rhanbarth ac asiantaeth ddiogelu wedi neilltuo amser ac ymdrech sylweddol mewn cydweithrediad â'r Bwrdd a'n partneriaid academaidd (Prifysgol Metropolitan Manceinion), i ddatblygu Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol enghreifftiol. Mae llawer o'r gwaith cefndir angenrheidiol wedi'i gwblhau ac mae cynnydd manwl wedi'i wneud yng nghyswllt Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol (Plant).

Er mai ein bwriad oedd lansio a threialu'r fframwaith fel 'prototeip' ar 1 Ebrill 2024, gwelwyd, fodd bynnag, bod hyn yn rhy uchelgeisiol yn wyneb cymhlethdodau mesur 'effeithiolrwydd' diogelu (yn hytrach na 'chyfrif ffeithiau'), gan godi pob math o gwestiynau am gasglu gwybodaeth ansoddol, profiadau go iawn a phatrymau gweithlu. Y sefyllfa ddiwygiedig ar hyn o bryd yw bod y Bwrdd yn bwriadu lansio prototeip ar 1 Ebrill 2025 a rhoi cynnig ar 'brofi cysyniad' yn ystod blwyddyn 2025/6. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae Partneriaeth Ddiogelu Strategol y Bwrdd Cenedlaethol/Prifysgol Metropolitan Manceinion yn trefnu rhagor o weithdai ym mhob rhanbarth Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i'n galluogi i fwrw ymlaen â Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol (Plant) ym mis Ebrill 2025.

## Diwylliant o ddysgu ym maes diogelu

Mae hwn yn parhau'n ganolog i arfer gorau yng Nghymru. Mae dysgu'n rhan annatod o broses Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant yng Nghymru a dylai'r broses barhau i lywio dysgu cenedlaethol. Er hynny, mae'n hanfodol gwella effeithiolrwydd ac effaith dysgu. I wneud hynny, rydym yn annog pawb i groesawu'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o'r cyhoeddiad **Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth, Dadansoddiad thematig o adolygiadau ymarfer plant yng Nghymru, 2023** a chytuno ar raglen weithredu dryloyw y mae modd ei chyflawni i fynd i'r afael â'r prif heriau i effeithiolrwydd. Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth - Bwrdd Ddiogelu

**Cynnydd yn ystod 2023-24**

Mae'n werth nodi bod y rhan fwyaf o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol eisoes wedi gallu adrodd am gynnydd sylweddol o ran ymateb i rai, neu bob un o argymhellion yr adroddiad. Mae hyn yn awgrymu ymrwymiad gwirioneddol i ddysgu gweithredol a rhoi newid ar waith gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, er mwyn sicrhau gwelliant amlwg. Er ei bod yn rhy gynnar i lunio barn gyffredinol gadarn ynghylch effaith y dysgu thematig ar lawr gwlad drwy Gymru gyfan, mae'r Bwrdd yn disgwyl casglu gwybodaeth benodol o Adroddiadau Blynyddol 2024-5 pob bwrdd rhanbarthol y flwyddyn nesaf (Gorffennaf 2025), ac yn disgwyl y bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth gliriach o ble mae cynnydd wedi'i wneud a ble mae'n parhau i fod yn heriol.

Mae "dysgu" fel elfen sylfaenol o sicrhau effeithiolrwydd a gwelliannau amlwg, yn parhau i fod yn rhan annatod o lywodraethiant clinigol a datblygu arfer gorau ledled Cymru. Ceir digon o dystiolaeth o waith herio ac adolygu parhaus mewn perthynas â charfan sylweddol o achosion ar draws pob Rhanbarth, sydd wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer adolygiad ymarfer, yn ystod y cyfnod. Serch hynny, ni ellir anwybyddu arwyddion gan y rhan fwyaf o Fyrddau Rhanbarthol, bod y broses Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant dan bwysau cynyddol anghynaladwy, heb roi sylw i gwestiynau ynghylch cynyddu adnoddau a chapasiti a chefnogi ac adnewyddu sgiliau 'adolygwyr'.

Nodwn fod hyfforddiant ychwanegol i adolygwyr wedi digwydd yn ystod y flwyddyn hyd yma (adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn), sydd i'w groesawu, cyn lansio'r Fframwaith Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn ddiweddar iawn ym mis Hydref 2024. Fodd bynnag, rydym hefyd yn deall nad yw'n glir o hyd i fyrddau rhanbarthol sut y bydd y beichiau ychwanegol a allai gyd-fynd â'r fframwaith newydd yn cael eu bodloni. Er bod dyfodiad yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn cynnig modd o gael trosolwg cenedlaethol cydlynol ac unigol o'r holl Adolygiadau Ymarfer Oedolion /Adolygiadau Ymarfer Plant/Adolygiadau Lladdiadau Domestig/ Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl/ Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol, ac o'r gwaith dysgu a'r argymhellion ar gyfer arfer gorau, y gobaith yw y gellir gwireddu holl fanteision y model newydd hwn yn llawn.

Rydym yn croesawu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl sydd ar fin cael ei lansio ym mis Hydref 24 ond yn amlwg ni allwn roi sylwadau am ei effaith adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Bydd unrhyw sylwadau'n cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer 2024-25.

# Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol: 5 Maes Allweddol ar gyfer Effeithiolrwydd Diogelu

Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu dull cydlynol a chyson o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am effeithiolrwydd diogelu drwy Gymru gyfan, nododd y Bwrdd Cenedlaethol y 5 Cwestiwn Allweddol canlynol yn ystod blwyddyn 2023-24, y credwn y dylai'r holl asiantaethau a chyrff perthnasol fynd i'r afael â nhw, yn barhaus ac yn flynyddol.

**1. Y broses ddiogelu**

- Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod trefniadau'n effeithiol o safbwynt **adnabod** pryderon am ddiogelu ac o safbwynt **ymateb** iddynt?
- Beth yw **canlyniadau** prosesau ac ymyriadau diogelu rhanbarthol?

**2. Gweithgarwch a data amlasiantaeth**

- Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod y **protocolau sy'n bodoli eisoes rhwng asiantaethau'n gweithio yn effeithiol**, pan nodir bod unigolion yn wynebu risg o ddioddef niwed?
- Pa **ddata** sy'n cael ei gasglu am hynny, sut y caiff ei rannu a pha dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod?

**3. Llinynnau thematig**

- Pa **brif ffynonellau thematig niwed**, sy'n gofyn am ymateb diogelu yn lleol, y ceir tystiolaeth ohonynt yn nata'r Bwrdd?
- Pa **gamau** sydd wedi'u nodi er mwyn ymateb i'r dystiolaeth thematig honno?

**4. Adborth defnyddwyr gwasanaeth**

- Beth yw **amcanion** y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol **o safbwynt casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth** am weithgarwch diogelu uniongyrchol?
- Beth y mae'r **metrigau** sy'n cofnodi'r adborth hwnnw'n ei ddweud wrth y Bwrdd?
- Sut y mae'r Bwrdd yn bwriadu ymateb i'r dystiolaeth honno a beth yw'r amserlen ar gyfer gwneud hynny?

**5. Gwybodaeth am y gweithlu**

- Beth a wyddys am **broffil** y gweithlu diogelu?
- Sut y mae **trefniadau recriwtio a chadw** yn effeithio ar y broses o gyflawni dyletswyddau diogelu?
- I ba raddau y **caiff hyfforddiant amlasiantaeth** ei ddarparu i'r gweithlu diogelu ac i ba raddau y mae'r gweithlu diogelu yn manteisio arno?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod asiantaethau'n deall anghenion y gweithlu diogelu o ran **llesiant a chymorth** ac yn ymateb iddynt?

Gan mai 2023-24 oedd y flwyddyn gyntaf i'r 'Pum Cwestiwn' hyn gael eu 'sefydlu', gofynnwyd i bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ymateb i bob cwestiwn yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24. Er bod yr ymarfer hwn yn cael ei drin fel 'blwyddyn beilot' i bob pwrpas, mae'r bwrdd wedi'i galonogi gan lefel y gefnogaeth i'r cwestiynau ac mae'n falch o allu nodi'r canlyniadau fel y cânt eu crynhoi yn y tabl isod.

Yn fwy cyffredinol, dymuna'r Bwrdd Cenedlaethol dynnu sylw at y negeseuon canlynol sy'n deillio o ymatebion rhanbarthol i bob un o'r 5 Cwestiwn, am y tro cyntaf: -

- Cyflwynodd pob Bwrdd Rhanbarthol ymatebion neu wybodaeth a oedd yn ceisio mynd i'r afael â phob cwestiwn.
- Mae hyn wedi galluogi'r Bwrdd Cenedlaethol i gael ystod eang o wybodaeth gyfoethog, nad oedd gynt yn weladwy i'r Bwrdd Cenedlaethol, ynghylch datblygu a gwella diogelu a'r heriau sy'n gysylltiedig â'i sicrhau a'i gynnal, ar draws Cymru gyfan.
- Roedd pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn amlwg yn gallu dangos cryfderau o ran deall eu heffeithiolrwydd eu hunain mewn rhai meysydd, ond nid pob un.
- Nid oedd pob ymateb yn gydlynol, yn ystyrlon nac yn gyson o ran data metrig ac roedd hyn i'w ddisgwyl. Mae hyn yn destun gwaith parhaus i ddatblygu Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol.
- Nododd rhai byrddau rhanbarthol eu bod yn credu y byddai rhagor o ganllawiau a chyngor diffiniol yn cael eu croesawu, er mwyn ei gwneud yn bosibl llunio ymatebion mwy ystyrlon i'r 5 Cwestiwn.
- Bydd Partneriaeth Strategol Datblygu Diogelu y Bwrdd Cenedlaethol /Prifysgol Metropolitan Manceinion yn cynnal gweithdy cenedlaethol, i alluogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Cenedlaethol i fyfyrio ynghylch mireinio mwy ar y 5 Maes a Chwestiwn yn gynnar yn 2025.

# 5 Cwestiwn Allweddol
## Themâu Cenedlaethol o'r Byrddau Rhanbarthol 2023-24

Dylid nodi nad oedd yn syndod bod ymatebion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn aml yn perthyn i fwy nag un maes neu eu bod yn cael eu priodoli i un maes gan un Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, tra byddai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol arall yn priodoli'r un wybodaeth i faes gwahanol.

### 1. Y broses ddiogelu

- Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod trefniadau'n effeithiol o safbwynt **adnabod** pryderon am ddiogelu ac o safbwynt **ymateb** iddynt?
- Beth yw **canlyniadau** prosesau ac ymyriadau diogelu rhanbarthol?

- Darparodd pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol dystiolaeth o brosesau a threfniadau cadarn a gweithredol ar gyfer Sicrhau Ansawdd ar lefel y Bwrdd.
- Cyflwynodd rhai Byrddau Diogelu Rhanbarthol dystiolaeth o hunanasesu gan asiantaethau partner, o ran casglu data, ymgysylltu â'r gymuned ac ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant.
- Roedd y rhan fwyaf o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi cynnwys gwaith a oedd yn cyd-fynd â'r broses o ddatblygu Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol dan arweiniad y Bwrdd Cenedlaethol /Prifysgol Metropolitan Manceinion.
- Tynnodd un Bwrdd sylw at ymrwymiad cryf i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau diogelu a deall yr effaith ar blant a theuluoedd, a chyfeiriodd at dystiolaeth ategol nodedig.
- Roedd nifer o'r ymatebion yn cyfeirio at bryderon bod y trefniadau ar gyfer 'sicrwydd', sy'n ymwneud â phrosesau diogelu, yn or-ddibynnol ar drefniadau a gwybodaeth Awdurdodau Lleol, a'u bod felly yn brin o wybodaeth ar sail amlasiantaeth.
- Cyfeiriodd pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol at rôl hollbwysig is-grwpiau Byrddau Diogelu Rhanbarthol, sy'n aml yn effeithiol iawn, yng nghyswllt y maes hwn.
- Roedd y rhan fwyaf o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn adrodd am brosesau cadarn, ond ychydig oedd yn gallu dangos tystiolaeth o 'ganlyniadau'.
- Tynnodd un bwrdd sylw at waith arloesol i sefydlu 'Cofrestr Risgiau'r Bwrdd', a oedd yn cael ei hystyried ym mhob cyfarfod; methodoleg i gofnodi ac adrodd ar ddata a phatrymau sicrwydd yng nghyswllt 'defnydd'; a 'Dangosfwrdd Data' cyffredinol parhaus, gan gynnwys Monitro gweithredol gan ddefnyddio system goleuadau traffig mewn perthynas â chamau gweithredu'r bwrdd y cytunwyd arnynt.

## 2. Gweithgarwch a data amlasiantaeth

» Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod y **protocolau sy'n bodoli eisoes rhwng asiantaethau'n gweithio yn effeithiol**, pan nodir bod unigolion yn wynebu risg o ddioddef niwed?
» Pa **ddata** sy'n cael ei gasglu am hynny, sut y caiff ei rannu a pha dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod?

» Roedd yr ymatebion i'r maes hwn ar draws yr holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yn amrywio'n fawr. Yn gyffredinol, roeddent heb eu datblygu'n ddigonol ac yn gymharol wan, ac yn aml collwyd cyfleoedd i fanteisio ar botensial y metrigau presennol, i 'adrodd y stori' ynghylch nifer yr achosion, patrymau galw neu bethau tebyg. Anaml iawn yr oedd ymatebion yn mynd y tu hwnt i fod yn ddisgrifiadol, yn hytrach nag yn ddadansoddol. Mae llawer o hyn yn gysylltiedig â heriau cynhenid defnyddio data metrig yn ystyrlon ond cafwyd rhai enghreifftiau trawiadol a oedd yn ceisio mynd i'r afael â'r her.

» Cyfeiriodd rhai Byrddau Diogelu Rhanbarthol at dystiolaeth o waith dadansoddi data da yn rhan o fusnes y Bwrdd e.e. o ran cam-fanteisio troseddol; Hysbysiadau Diogelu'r Heddlu; tracio polisïau a gweithdrefnau ac archwiliadau amlasiantaeth.

» Yn yr un modd, roedd dadansoddi data wedi arwain un bwrdd i ddatblygu adnodd i gefnogi ymarferwyr i reoli 'Ansicrwydd ynghylch Trothwy'; lle ceir pryderon am ddiogelu oedolion. Nododd dadansoddiad data'r un bwrdd fwlch strategol sylweddol o ran creu cysylltiadau cydlynol rhwng partneriaid a fforymau strategol mewn perthynas â phlant mewn perygl y tu allan i'r cartref; ystyriwyd bod hyn yn tanseilio cyfleoedd i ddatblygu dadansoddiad ar y cyd i gefnogi targedu gwaith atal ac ymyrryd yn fuan.

» Cyfeiriwyd yn fwy aml at ddata metrig lle'r oedd bwrdd yn ceisio deall ffenomenon penodol neu fethiant system a mynd i'r afael ag ef. Fodd bynnag, rydym yn gwybod, o fod yn bresennol ein hunain yng nghyfarfodydd pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, bod pob bwrdd yn mynd ati'n weithredol ac yn aml yn effeithiol iawn ar wahanol adegau, i fynd i'r afael â ffenomena penodol yn y ffordd hon. Y cwestiwn yw a ellid integreiddio'n fwy effeithiol ddull gweddol ddisgybledig a chyson at ei gilydd i adroddiadau a dadansoddiadau data ar lefel y Bwrdd, ar draws ystod ehangach o ddata fel mater o drefn, yn hytrach nag mewn ymateb i broblem neilltuol neu faterion sy'n dod i'r amlwg yn unig.

## 3. Llinynnau thematig

» Pa **brif ffynonellau thematig niwed**, sy'n gofyn am ymateb diogelu yn lleol, y ceir tystiolaeth ohonynt yn nata'r Bwrdd?
» Pa **gamau** sydd wedi'u nodi er mwyn ymateb i'r dystiolaeth thematig honno?

Gwyddys bod pob Bwrdd yn weithgar iawn o ran adnabod nodweddion thematig yn y Rhanbarth, er nad yw'r ffordd y cyflawnir hyn bob amser yn glir, ac efallai bod hynny ond yn adlewyrchu ymateb priodol i bwysau sy'n dod i'r amlwg yn ystod cyfnod penodol. Rhaid gofyn o hyd a oes mwy o gyfle i'r gwaith rhagorol sy'n cael ei gefnogi yn y maes hwn fod yn fwy gweledol ar draws Cymru gyfan a chael ei rannu'n effeithiol, er mwyn hybu gwaith dysgu. Mae hyn yn awgrymu bod lle i ddatblygu rhyw fath o 'borth dysgu' diogelu mwy cyffredinol sydd â rhyngwyneb â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Ymysg y llinynnau thematig a nodwyd gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, mae'r canlynol yn haeddu sylw:

» **Hunanladdiad** – Ar ôl nodi yn flaenorol bod hunanladdiad yn thema yr oedd angen rhoi sylw pellach iddi, dangosodd un bwrdd ymateb cadarn i achosion lle'r oedd amheuon bod unigolyn wedi cyflawni hunanladdiad, neu achosion lle'r oedd unigolyn wedi ceisio cyflawni hunanladdiad, a oedd yn cael ei gynnig yn gynt. Er bod disgwyl i hyn gael ei werthuso ar gyfer 2024-2025, mae'r Bwrdd yn adrodd nad oedd unrhyw unigolyn a oedd wedi cael cymorth drwy'r llwybr hwn wedi mynd ymlaen i gyflawni hunanladdiad.

» **Diogelu Trosiannol** - Ar ôl dangos tystiolaeth o ddull 'deuaidd' wedi'i ymgorffori o ymdrin â phlant hŷn a phobl ifanc y cam-fanteisir arnynt, mae'r bwrdd yn datblygu rhaglen amlasiantaeth i fynd i'r afael â'r risg hon.

» **Tlodi** – Dangosodd un Bwrdd dystiolaeth o bwyslais amlwg ar ymgysylltu ag ystod eang o bartneriaid ynghylch effaith a heriau tlodi a'i effaith ar ddiogelu oedolion a phlant.

» Mae data un bwrdd wedi nodi mai **Camfanteisio Troseddol** yw'r risg fwyaf cyffredin o niwed y tu allan i gartref y teulu, ac mae wedi arwain y Bwrdd i dynnu sylw at yr angen am strategaeth genedlaethol i ddiwallu'r ymateb. Mae cynllun peilot 'Llwybr Risg y Tu Allan i Gartref y Teulu' yn cael ei gynllunio gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol. Cyfeiriodd sawl bwrdd at gam-fanteisio troseddol yn gyffredinol, fel her gynyddol o ran diogelu.

» **Hunanesgeulustod** – cyfeiriodd nifer o fyrddau at y maes hwn a'i heriau cysylltiedig o ran gallu ymyrryd neu atal cyflyrau critigol, fel un o'r prif ffynonellau risg ym maes diogelu oedolion.

» Dywedodd un bwrdd fod **ymddygiad rhywiol niweidiol ymysg plant a phobl ifanc** wedi arwain at waith i gefnogi adnabod ac atal ymddygiad amhriodol a phroblematig yn gynnar er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn gwaethygu i niwed difrifol.

» **Adolygiadau Achos** – Cyfeiriodd un bwrdd at waith cadarnhaol iawn o ran rhoi cyfleoedd i 'ddefnyddwyr gwasanaeth' a'u teuluoedd gymryd rhan mewn Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion ac o ran annog adborth uniongyrchol i dîm yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ar ddiwedd y broses. Mae Uned Fusnes y Bwrdd wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â thîm yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a meysydd eraill y Bwrdd i sicrhau bod adborth gan deuluoedd yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl mewn ffordd ystyrlon a chydweithredol.

## 4. Adborth defnyddwyr gwasanaeth

- Beth yw **amcanion** y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol **o safbwynt casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth** am weithgarwch diogelu uniongyrchol?
- Beth y mae'r **metrigau** sy'n cofnodi'r adborth hwnnw'n ei ddweud wrth y Bwrdd?
- Sut y mae'r Bwrdd yn bwriadu ymateb i'r dystiolaeth honno a beth yw'r amserlen ar gyfer gwneud hynny?

Cydnabyddir yn eang bod casglu a dadansoddi data a gwybodaeth ystyrlon yn heriol iawn yn y maes hwn ar draws y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac yn arbennig felly o ran diogelu. Serch hynny, mae pob bwrdd yn dangos ymrwymiad cryf i fanteisio'n llawnach ar 'brofiadau go iawn', fel ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth. Dyma rai enghreifftiau diddorol yn Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol: -

- Rhwydwaith eiriolaeth rhieni/cymheiriaid i gynnig tystiolaeth o straeon cadarnhaol am newid personol o ganlyniad i ddiogelu.
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Iau yn denu aelodau o Glybiau Ieuenctid.
- Dywedwyd bod defnyddio fideo a gynhyrchwyd gan bobl ifanc wedi cael effaith ar ymarfer.
- Mae panel goroeswyr a sefydlwyd gan y grŵp rhanbarthol ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith a gomisiynwyd gan gynnwys darparu hyfforddiant ar gyfer y farnwriaeth.
- Roedd y cynlluniau hefyd yn cynnwys nodi'r anghenion nas diwallwyd sydd gan blant di-eiriau neu'r rheini sy'n wynebu rhwystrau o ran cyfathrebu; adnabod bwlio a hiliaeth mewn lleoliadau addysgol; datblygu canllawiau amlasiantaeth i ymarferwyr i hybu ymgysylltu gweithredol â phrofiadau go iawn.
- Mae gwasanaeth cyn-geni ataliol, sy'n cynnig cymorth i rieni plant hyd at flwydd oed, wedi cael ymateb cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

## 5. Gwybodaeth am y gweithlu

- Beth a wyddys am **broffil** y gweithlu diogelu?
- Sut y mae **trefniadau recriwtio a chadw** yn effeithio ar y broses o gyflawni dyletswyddau diogelu?
- I ba raddau y **caiff hyfforddiant amlasiantaeth** ei ddarparu i'r gweithlu diogelu ac i ba raddau y mae'r gweithlu diogelu yn manteisio arno?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod asiantaethau'n deall anghenion y gweithlu diogelu o ran **llesiant a chymorth** ac yn ymateb iddynt?

- Er bod pob rhanbarth yn nodi heriau sylweddol iawn a pharhaus o ran y gweithlu, mae hwn yn faes sy'n cyflwyno her o ran gallu cofnodi, dadansoddi ac adrodd ynghylch patrymau'r gweithlu, yn enwedig ar sail amlddisgyblaethol.

- Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o fyrddau wedi ymrwymo i ddod o hyd i ffordd o fynd i'r afael â'r ffactor llwyddiant hollbwysig hwn o ran diogelu, ac mae rhai rhanbarthau wedi cyfeirio at ddulliau creadigol ac effeithiol o fynd i'r afael â'r her, fel y nodir isod. Wedi dweud hynny, roedd Adroddiadau Blynyddol rhai Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn awgrymu bod diffyg gweithredu.

- Yn y cyfamser, roedd Adroddiadau Blynyddol yr holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yn dangos rhaglenni hyfforddi eang sydd wedi'u datblygu'n dda ac sy'n ymddangos yn 'gyfredol', yn berthnasol, yn hygyrch ac wedi'u hanelu at ymarferwyr a rheolwyr gweithredol.

- Mae rhai o'r uchafbwyntiau'n cynnwys: -

  - Dull cynhwysfawr iawn o ymdrin â'r gweithlu mewn un rhanbarth, gan ddarparu tystiolaeth o ddadansoddi cadarn; gyda'r gallu i nodi mwy o sefydlogrwydd ymysg gweithwyr proffesiynol ym maes diogelu o ran niferoedd sy'n gadael ac yn dechrau, ac i ddeall statws ac effaith presennol demograffeg a chynaliadwyedd y gweithlu ymwelwyr iechyd; disgrifiwyd ymwybyddiaeth gref o fanteision cymorth proffesiynol a lles yn yr enghraifft hon hefyd.

  - Mewn rhanbarth arall, mae grwpiau llywio'r gweithlu yn darparu ffocws ar gyfer gweithgareddau lles a chadw staff. Nodir bod datblygu staff a chyfleoedd gyrfa yn allweddol, ac mae llwybr wedi'i sefydlu ar gyfer datblygu ein gweithlu ein hunain ym maes gofal cymdeithasol.

# Partneriaeth Strategol 3 blynedd ar gyfer Datblygu Diogelu – 2024-2027

Daeth yn amlwg i'r Bwrdd Cenedlaethol yn ystod 2023 bod perygl o gael gormodedd o ymchwil ac argymhellion oni ellid chwistrellu capasiti ychwanegol i'r sector i gefnogi ac annog Byrddau Rhanbarthol, partneriaid ac asiantaethau statudol, i fwrw ymlaen â'r argymhellion ar gyfer newid a datblygu. Nid oedd y capasiti hwn ar gael drwy'r Bwrdd Cenedlaethol ei hun nac mewn mannau eraill a daeth yn angenrheidiol comisiynu partneriaeth ddatblygu.

Gan ddefnyddio cyfran sylweddol o gyllideb flynyddol y Bwrdd Cenedlaethol, sefydlwyd partneriaeth a ariennir ag arian cyfatebol gyda Phrifysgol Metropolitan Manceinion i gael rhaglen 3 blynedd (2024-2027) o waith datblygu polisi, ymarfer a sicrhau ansawdd, i'w chyflawni mewn cydweithrediad uniongyrchol â byrddau rhanbarthol a phartneriaid eraill; dechreuodd y gwaith ym mis Ebrill 2024. Bydd llawer o'r gwaith hwn yn cael ei lywio gan yr argymhellion sy'n deillio o'r dadansoddiad thematig o'r adolygiadau ymarfer plant a gynhaliwyd yn 2023: "Risg, Ymateb ac Adolygu", gan gynnwys gwaith pellach mewn perthynas â'r fframwaith perfformiad amlasiantaeth cenedlaethol a'r "12 Elfen" (model ar gyfer hybu a gwella cydgyfrifoldeb mwy effeithiol ac ar gyfer monitro safonau yn rhyngasiantaethol ac yn rhyngddisgyblaethol).

Mae gwaith y bartneriaeth bellach yn mynd rhagddo, ac mae pob Bwrdd Rhanbarthol wedi ymrwymo'n llwyr i ymgysylltu â'r rhaglen sy'n cynnwys meysydd gwaith y manylir arnynt yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

## Datblygu Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol

**Fframwaith Perfformiad Plant** – Mae'r rhaglen waith hon yn parhau i symud yn ei blaen yn raddol mewn cydweithrediad agos a chynhyrchiol â'r holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol (Rheolwyr Busnes Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Uwch-arweinwyr Gweithredol Awdurdodau Lleol) a rhywfaint o gynrychiolaeth o asiantaethau rhanbarthol/cenedlaethol. Mae rhagor o weithdai cydweithredol rhanbarthol ar y gweill adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, gyda mwy yn cael eu cynllunio dros y flwyddyn nesaf (2025-26) ynghyd â'r cynnig o gymorth uniongyrchol i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol unigol, drwy Bartneriaeth Diogelu Strategol y Bwrdd Cenedlaethol /Prifysgol Metropolitan Manceinion. Mae hyn yn gofyn am amserlen wedi'i haddasu gyda chynlluniau i gytuno ar brototeip i'w dreialu o fis Ebrill 2025-2026 ymlaen.

**Fframwaith Perfformiad Oedolion** – Cynhaliodd yr Athro McManus Adolygiad Llenyddiaeth Cyflym o Ddiogelu Oedolion yng Nghymru (MAMRA, Ebrill 2024), gyda'r bwriad o ddechrau gwaith i ddatblygu fframwaith perfformiad ar gyfer diogelu oedolion. Roedd hwn yn seiliedig ar adolygiad llenyddiaeth yn y DU ac fe'i cynhaliwyd drwy ymgynghori'n agos ag arbenigwyr ac arweinwyr allweddol o bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a mannau eraill yng Nghymru. Cafodd yr adroddiad ynghylch y canfyddiadau ei rannu â 40+ o uwch-arweinwyr mewn digwyddiad bwrdd crwn cenedlaethol, a gynhaliwyd gan y bartneriaeth ar 19 Mehefin 2024. Cafodd yr adroddiad dderbyniad da, gan ysgogi trafodaeth â lefel briodol o her am ystyriaethau allweddol a sbardunodd lefel uchel o ymrwymiad gan weithredwyr rhanbarthol a chenedlaethol allweddol, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith perfformiad ar gyfer diogelu oedolion.

Prif amcanion yr adolygiad hwn oedd archwilio:

- Diffiniadau o 'ddiogelu oedolion' yng Nghymru.
- Deall natur Diogelu Oedolion (mathau/categorïau o bryderon am ddiogelu).
- Deddfwriaeth, polisi ac arweiniad sy'n berthnasol i ddiogelu oedolion yng Nghymru.
- Rheoli Perfformiad/mesurau sy'n bodoli eisoes ym maes diogelu oedolion.
- Ymatebion amlasiantaeth i ddiogelu oedolion, gan gynnwys partneriaethau, gwneud penderfyniadau, arfer da, heriau ac argymhellion allweddol.

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn bwriadu cynnal cynhadledd ym mis Tachwedd 2024, gan ganolbwyntio ar Ddiogelu Oedolion lle bydd yr adroddiad hwn ac adroddiadau, canfyddiadau a gwersi pwysig eraill yn cael eu rhannu, gan gynnwys gwersi o Loegr a mannau eraill.

# Ymrwymiadau 2024-2027
Cydbwysedd rhwng parhad a datblygiad

## Yn ystod y tymor o 3 blynedd, ac o fis Gorffennaf 2024 ymlaen, bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn:

» **Sicrhau parhad yng ngwaith y bwrdd**, yn enwedig o ran cynnal diwylliant o gydweithio ac o ran adeiladu ar weithgarwch cynhyrchiol cyffredin gyda'r Byrddau Rhanbarthol.

» **Sicrhau parhad o ran meithrin ac ymestyn y sgwrs** â phartneriaid allweddol cenedlaethol a phartneriaid allweddol ledled y DU ym maes diogelu.

» **Sicrhau parhad yn rôl y Bwrdd Cenedlaethol o ran 'dysgu cenedlaethol'** - drwy gefnogi dysgu o broses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl newydd a pharhau i sicrhau bod adroddiad thematig cenedlaethol annibynnol yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol yn seiliedig ar yr Adolygiadau Ymarfer Oedolion a'r Adolygiadau Ymarfer Plant (am yn ail bob blwyddyn) a gyhoeddir gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yn ystod y ddwy flynedd flaenorol; Cynnal seminar/cynhadledd ddiogelu flynyddol i rannu gwaith dysgu cenedlaethol o Adolygiadau Ymarfer Oedolion /Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau annibynnol eraill.

» **Cyhoeddi Adroddiad Thematig Cenedlaethol Annibynnol - Adolygiadau Ymarfer Oedolion 2024** (Bydd hyn ym mis Tachwedd 2024).

» **Parhau â rhaglen waith "Llywio'r Dyfodol"** drwy fwrw ymlaen â gweithredu **Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol a Hybu Cydgyfrifoldeb**.

» **Goruchwylio camau gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol**.

» **Ystyried canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o Adroddiadau Cenedlaethol sy'n ymwneud â rheoli Honiadau Proffesiynol** gyda'r bwriad o nodi meysydd posibl i'w datblygu.

» **Adolygu rôl, cwmpas a swyddogaethau'r Bwrdd Cenedlaethol** gyda'r bwriad o ddatblygu a pharatoi argymhellion ar gyfer newid (Ionawr 2025), i'r Dirprwy Weinidog.

» **Gwella'r ffocws ar Ddiogelu Oedolion fel blaenoriaeth**, gyda'r bwriad o ailgydbwyso'r gweithgarwch datblygu yn unol â hynny, gan gymryd arweiniad o ganfyddiadau Adroddiad Thematig Oedolion Partneriaeth y Bwrdd Cenedlaethol/Prifysgol Metropolitan Manceinion 2024 ac o dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, sydd ar gael drwy Storfa'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

## Cryfhau cydberthnasau â rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol

Mae'r bwrdd presennol (2023-2026) yn parhau i fuddsoddi amser ac ymdrech sylweddol mewn meithrin cydberthnasau 'sefydlog' ag Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi, Arolygiaeth Prawf a Charchardai Ei Fawrhydi, Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Plant Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn, yr Uned Atal Trais, Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru, Rhwydwaith Diogelu'r Pum Gwlad a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ymhlith eraill.

Dyma'r datblygiadau sydd wedi deillio o'n sgwrs â rhanddeiliaid 'allanol' sy'n bartneriaid i ni, sy'n haeddu sylw:

» **Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru)** – Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi parhau i gryfhau ei berthynas â swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, drwy ymgysylltu â'r **Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn**. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei groesawu fel y gwaith cyntaf o'i fath yn y DU, i ddiogelu'n well bobl hŷn yng Nghymru sy'n cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.

» Roedd y Bwrdd yn falch o groesawu'r cynnydd sy'n cael ei hwyluso gan **Ofal Cymdeithasol Cymru** o ran datblygu'r **Safonau Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu ym maes Diogelu** a'r **Fframwaith** cysylltiedig sydd wedi cael derbyniad da ac sydd bellach wedi cael eu rhoi ar waith.

» **Cysylltu â chyrff arolygu a rheoleiddio** – mae ein hymwneud ag arolygiaethau perthnasol sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli yn dal yn bwysig o ran ein dealltwriaeth o ddatblygiadau ehangach a'r heriau sy'n dod i'r amlwg ac, i raddau helaeth, mae'r rhain yn parhau i fod yn gadarnhaol.

Wedi dweud hynny, rydym wedi dechrau pryderu ei bod yn ymddangos bod arolygiaethau'n wynebu peth o'r un pwysau ariannol sydd wedi arwain llawer o wasanaethau iechyd a gofal sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'r cyhoedd i sefyllfa o argyfwng bron. Mae'n amlwg, yng nghyd-destun ehangach gwasanaethau sy'n ei chael yn anodd diwallu angen gydag adnoddau cyfyngedig, y bydd rôl arolygu yn bwysicach fyth, fel mesur diogelu allweddol yn erbyn risg ac fel ffynhonnell o sicrwydd. Rydym wedi dysgu ei bod yn ymddangos bod gostyngiadau yn y gyllideb yn creu'r risg o gwtogi'r gweithlu proffesiynol yn gymesur, gydag effaith bryderus ar allu'r arolygiaeth i fonitro safonau a risg mewn lleoliadau perthnasol. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn gofyn am gael gwybod a deall mwy am wir faint unrhyw effaith a geir o ganlyniad i'r gostyngiadau hyn yn ystod y flwyddyn bresennol ac yn adrodd ar yr hyn a ddaw i'r amlwg yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-5.

# Gwaith y Bwrdd Cenedlaethol yn ystod 2023-24 mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol presennol

## **Dyletswydd Strategol 1 y Bwrdd Cenedlaethol: Darparu cymorth a chyngor** i Fyrddau Diogelu, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn effeithiol.

Mae pob un o aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn gysylltiedig â Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, a mynychodd pob aelod gyfarfodydd a digwyddiadau datblygu eu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol perthnasol yn ystod y flwyddyn. O gyfuno'r drefn honno â'r canlynol, mae'n ffynhonnell allweddol o wybodaeth am themâu sy'n dod i'r amlwg ac am effeithiolrwydd cyffredinol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol:

- Sicrhau cyfarfodydd bob deufis rhwng cadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cenedlaethol
- Ymgysylltu a chyfarfod yn rheolaidd â Rheolwyr Busnes y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn gan y Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio llawer o wybodaeth am effeithiolrwydd, a gafwyd drwy bresenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd pob un o'r Byrddau Rhanbarthol drwy gydol y flwyddyn. Yn rhan o adolygiad blynyddol y Bwrdd o effeithiolrwydd diogelu (yn unol â'r ddyletswydd strategol uchod), mae pob aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol yn cynnal adolygiad o'r Bwrdd a ddyrannwyd iddo/iddi, gan ddefnyddio Adroddiad Blynyddol y Bwrdd hwnnw.


# Dyletswydd Strategol 2 y Bwrdd Cenedlaethol: Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru.

## "Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru" – Rhaglen Bartneriaeth Strategol ar gyfer Datblygu Diogelu gyda'r Athro Michelle McManus o Brifysgol Metropolitan Manceinion

Mae "Rhaglen Llywio'r Dyfodol" y Bwrdd Cenedlaethol wedi parhau i ddarparu'r llwyfan cyffredinol ar gyfer y gwaith a wneir gan Brifysgol Metropolitan Manceinion fel partner strategol y Bwrdd. Mae'r rhaglen hon yn parhau i adeiladu ar y gyfres o adroddiadau sy'n adlewyrchu archwiliad 'system gyfan' dwys a threiddgar o ddiogelu ar draws Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r adroddiadau hyn yn darparu'r broses casglu tystiolaeth fwyaf cynhwysfawr o'i math yng Nghymru hyd yma, gan gynnwys cyfweliadau â gweithwyr proffesiynol o bob asiantaeth ac, yn olaf, adolygiad manwl o 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023.

Mae ehangder a phwysigrwydd y rhaglen allweddol hon sydd wedi sbarduno gwaith y Bwrdd wedi'u crynhoi i raddau helaeth gan yr Athro McManus ac Emma Ball ac fe'u hamlinellwyd yn gryno yn Adroddiad Blynyddol 2022-23 y Bwrdd. Mae Ffigur 1 isod yn dangos y prosiectau a gwblhawyd hyd yma, o dan raglen "Llywio'r Dyfodol" ac mae rhagor o adroddiadau ymchwil manwl, canfyddiadau ac argymhellion ar gael yma.




***Ffigur 1: Amlinelliad o'r prosiectau a gwblhawyd****

* Mae elfennau 2, 3 a 4 y diagram hwn yn parhau i gefnogi a sbarduno elfennau allweddol o Raglen Strategol y Bwrdd Cenedlaethol/Prifysgol Metropolitan Manceinion ar gyfer Datblygu Diogelu a chyfeirir atynt drwy gydol yr adroddiad blynyddol hwn.

## Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant Hydref 2023

Cafodd Adroddiad Briffio ac Adroddiad Llawn eu llunio ar ôl cwblhau'r gwaith hwn a fu'n archwilio 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd gan y chwe Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant yng Nghymru rhwng 2013 a 2021. Cynhaliodd y tîm ymchwil ddadansoddiadau disgrifiadol, casgliadol a thematig o'r 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant. Nododd y dadansoddiadau dueddiadau cyffredin o ran ffactorau risg ac o ran yr ymateb diogelu amlasiantaeth ar draws y grŵp hwn o adolygiadau. At hynny, gwnaethom ddadansoddi ansawdd a chysondeb yr adolygiadau eu hunain. Gwnaethom geisio amlygu'r heriau, hybu ymarfer gwell a dileu rhwystrau i waith diogelu effeithiol ar draws y rhwydwaith diogelu proffesiynol cyfan. Roedd prif feysydd ffocws yr adroddiad yn cynnwys:

**Risg: Nodweddion Plant Blaen a Theuluoedd mewn Adolygiadau Ymarfer Plant**

Mae'n cynnwys gwybodaeth ddisgrifiadol i adnabod tueddiadau o ran nodweddion plant a theuluoedd a dangosyddion risg.

**Ymateb: Ymwneud Sefydliadau ac Asiantaethau cyn y Digwyddiad Blaen**

Mae'n cynnwys gwybodaeth ddisgrifiadol i nodi pa sefydliadau ac asiantaethau a oedd yn ymwybodol o'r plentyn a/neu aelodau'r teulu cyn y digwyddiad blaen. Mae'r cam hwn hefyd yn cynnwys y dadansoddiad thematig o'r dysgu a'r ymateb amlasiantaeth yng nghyswllt yr Adolygiad Ymarfer Plant. Nodwyd pedair thema allweddol a oedd yn cynnwys:

» Heriau i Ymarferwyr ac Asiantaethau


» Rhwystrau i Strwythurau a Phrosesau

» Dylanwadau Ehangach ar Ymarfer a Phrosesau

» Arfer Da a Nodwyd

**Adolygu: Ansawdd Adolygiadau Ymarfer Plant**

O gofio mai nod y wybodaeth sydd yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant yw bod yn hwylusydd allweddol i sbarduno dysgu, newid a gweithredu, mae'n bwysig archwilio adroddiadau'r Adolygiadau eu hunain o ran eu strwythur, eu cynnwys a'r graddau y maent yn glynu wrth y prosesau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant.




***Ffigur 2: Model o Ansawdd a Chysondeb Adolygiadau Ymarfer Plant***

**Mae prif argymhellion y dadansoddiad o'r Adolygiadau Ymarfer Plant** wedi'u nodi ac wedi'u hanelu at:

- Ymarferwyr a Rheolwyr
- Awdurdodau a Byrddau
- Llunwyr Polisi

At ei gilydd, mae'r meysydd ar gyfer gwella'n gysylltiedig â chryfhau cydberchnogaeth ar lefel systemau diogelu gweithredol; cydweithio amlasiantaeth; rhannu gwybodaeth; bod â'r hyder i herio rhieni ac eraill; a'r angen i fynd i'r afael â chapasiti annigonol yn y gweithlu Nid oes yr un o'r ffactorau hyn yn annibynnol ar ei gilydd nac yn cynnig atebion syml, ac mae pob un ohonynt yn gofyn am ymrwymiad unol ar y cyd ar bob lefel er mwyn lleihau risg ymhellach a sicrhau bod arfer da'n cael ei gynnal dros y tymor hir.

* Adolygiad Thematig Cenedlaethol o 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd yng Nghymru: Adroddiad gan yr Athro Michelle McManus ac Emma Ball (Cydymaith Ymchwil) o Brifysgol Metropolitan Manceinion a'r Athro Louise Almond (Prifysgol Lerpwl).

## Model ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Parhaodd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol i gyfrannu'n weithredol at waith Llywodraeth Cymru yng nghyswllt yr **Adolygiad Diogelu Unedig Seng**l, yn ystod 2023-24 ac ers hynny. Cyflwynodd y Bwrdd Cenedlaethol ymdriniaeth dechnegol fanwl ar wahân mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghori cenedlaethol a ddaeth i ben ar 9 Mehefin 2023; nid yw'r Bwrdd hyd yma wedi gweld sut mae disgwyl i'r storfa weithredu'n ymarferol ac nid yw'n gallu rhoi sylwadau ystyrlon ar ei photensial hyd yma.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nodir bod y fframwaith Adolygiad Diogelu Unedig Sengl wedi cael ei 'lansio'n' ffurfiol a'i sefydlu fel y sail ddiffiniedig ar gyfer cynnal pob Adolygiad Ymarfer Oedolion a Phlant lle mae'r rhain yn cyd-daro ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Nodir bod y fframwaith newydd hwn bellach yn cynnwys Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Lladdiadau ag Arfau Ymosodol

Mae'r Bwrdd o'r farn bod y mwyafrif llethol yn croesawu uchelgais a chysyniad creiddiol yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Fodd bynnag, mae rhai byrddau'n dal i bryderu am yr effaith y bydd y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau ychwanegol a ddaw yn sgil y newid yn ei chael ar Fyrddau Diogelu Rhanbarthol, ac yn benodol ar Gadeiryddion Byrddau, Unedau Busnes Byrddau a chyllidebau Byrddau, oherwydd gallai'r effaith fod yn dyngedfennol ac arwain at ansefydlogrwydd. Yn ychwanegol at hynny y mae'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw digon o adolygwyr medrus mewn cronfa sydd eisoes yn gyfyngedig. Mae hynny'n hollbwysig i effeithiolrwydd Byrddau Rhanbarthol yn y dyfodol. Roedd cynigion a phrosesau y bwriedir iddynt fynd i'r afael ag ystod o faterion hollbwysig sy'n ymwneud â recriwtio, cadw, hyfforddi a safonau, ymhlith materion eraill, wrthi'n cael eu gweithredu gan dîm yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ac yn destun trafodaeth rhwng y tîm a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Amser a ddengys a fyddant yn ddigonol i oresgyn her sydd eisoes yn anodd ei datrys i rai.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi ymrwymo i chwarae ei ran o safbwynt cynorthwyo i weithredu'r Adolygiad yn llwyddiannus, lle bynnag y gall, oherwydd mae'r newidiadau a ddaw yn sgil yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ymhlith y rhai mwyaf arwyddocaol i weithwyr proffesiynol ym maes diogelu ers cenhedlaeth. Mae'r Bwrdd yn croesawu ymrwymiad tîm yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a gyhoeddwyd yn ddiweddar i sicrhau adolygiad strategol o gynnydd ac effaith ar ddiwedd y flwyddyn lawn gyntaf.

## Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Yn rhan o'i ddyletswydd statudol gynhenid i gynghori Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar *"effeithiolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru"*, cytunodd y Bwrdd Cenedlaethol i gyflawni *"rôl goruchwylio cynghorol"*, wrth fonitro'r ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r 6 argymhelliad a wnaed i Lywodraeth Cymru gan yr Ymchwiliad. Er i'r Ymchwiliad Annibynnol gyhoeddi ei adroddiad terfynol a'i argymhellion terfynol ar 20 Hydref 2022, mae'r cynllun gweithredu dilynol, y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad, yn dal i fod yn weithredol ac ar waith.

Yma, mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn cyfyngu ei sylwadau i'r graddau y mae'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru yn mynd rhagddynt yn effeithiol; mae'r bwrdd yn gallu llunio barn ar sail adroddiadau monitro chwarterol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, gyda chymorth sgwrs reolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Ers ei sefydlu ym mis Mawrth 2015, aeth yr Ymchwiliad ati i ymchwilio i weld a yw cyrff cyhoeddus a lleoliadau eraill yng Nghymru a Lloegr – gan gynnwys sefydliadau crefyddol, chwaraeon, ysgolion, dalfeydd, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol – wedi cyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a rhag achosion lle mae pobl eraill yn camfanteisio arnynt yn rhywiol.

Gwnaeth yr adroddiad terfynol **20 o argymhellion, a 6 ohonynt wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru**. Sef:

A1. **Set ddata craidd unigol sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant** – sydd i bob pwrpas yn gofyn am welliannau o ran casglu data, cysondeb, proffilio poblogaeth, ymysg elfennau eraill. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru.

*Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn fodlon bod cynnydd da'n cael ei wneud o ran sefydlu set ddata gydlynol ac integredig. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac yn cael ei fonitro'n barhaus.*

A2. **Awdurdodau Amddiffyn Plant ar gyfer Cymru a Lloegr**. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru gan nodi, fodd bynnag, bod Llywodraeth Cymru yn dadlau bod y swyddogaethau a argymhellwyd ar gyfer awdurdod o'r fath eisoes wedi'u bodloni gan y fframwaith statudol sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru a sefydlu'r Bwrdd Cenedlaethol.

*Er bod y Bwrdd Cenedlaethol yn cymeradwyo ymateb Llywodraeth Cymru i A2, dylid nodi bod y Bwrdd Cenedlaethol o'r farn ei bod bellach yn amserol, yng ngoleuni datblygiadau diogelu strategol mwy diweddar yng Nghymru, a gwaith dysgu ehangach, adolygu cwmpas, rôl a chylch gwaith y Bwrdd Cenedlaethol, ddeng mlynedd a mwy ar ôl ei sefydlu.*

A3. **Gweinidog y Cabinet dros Blant**. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn wedi'i gyflawni a'i fod yn parhau i fod yn rhan o'r portffolios gweinidogol a sefydlwyd yn flaenorol yng Nghymru.

*Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn cytuno bod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni ac nad oes angen gwneud unrhyw sylw pellach yn ei gylch.*

A4. **Ymwybyddiaeth y cyhoedd**. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru.

*Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn fodlon bod Llywodraeth Cymru yn gallu dangos tystiolaeth o raglenni datblygu sylweddol i gefnogi'r argymhelliad hwn ac mae'n amlwg ei bod wedi ymrwymo i hyn fel maes ar gyfer datblygu ac arloesi parhaus. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac yn cael ei fonitro'n barhaus.*

A13. **Adrodd mandadol am gam-drin plant yn rhywiol mewn rhai amgylchiadau**. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor ond mae o'r farn bod hyn yn gofyn am raglen waith sylweddol i archwilio'r goblygiadau ar gyfer fframweithiau statudol sydd eisoes yn bodoli sy'n effeithio ar waith adrodd. Mae rhaglen waith gymhleth ar y gweill i asesu'r trefniadau presennol a'r potensial i'w cryfhau.

*Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn cymeradwyo'r dull gweithredu cymesur sydd ar waith ar hyn o bryd ac yn aros am ragor o adroddiadau cynnydd.*

A16. **Gwarant genedlaethol o gymorth therapiwtig arbenigol i blant sy'n ddioddefwyr.** Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru.

*Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn cymeradwyo ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwn. Gyda chymorth cydweithrediad â sefydliadau arbenigol allanol, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd ar drywydd ystod ehangach o ddatblygiadau cysylltiedig er mwyn deall yn well, gwella a chryfhau ystod, ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau therapiwtig i blant sy'n ddioddefwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo ac yn cael ei fonitro'n barhaus.*

## Datblygiadau eraill sy'n berthnasol i ddyletswydd strategol 2

### Diogelu Oedolion

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae diogelu plant wedi tueddu i fod yn fwy amlwg na diogelu oedolion yn llawer o'r gwaith datblygu a noddir gan y Bwrdd Cenedlaethol. I ryw raddau, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod yr arfer sy'n bodoli eisoes, a'r fframweithiau diogelu plant statudol, wedi elwa'n fwy sylweddol a chyson o sylw agosach i bolisi dros gyfnod hwy (40 mlynedd a mwy). Er bod y Bwrdd wedi parhau i roi blaenoriaeth i ddiogelu oedolion, roedd y Bwrdd yn cydnabod ar ddiwedd 2023-24 bod angen ehangu a gwella hyn yn sylweddol ac y dylai 2024-25 fod yn flwyddyn pan fyddai'r Bwrdd yn troi ei sylw'n llawnach at oedolion. Gan ei bod yn ddeng mlynedd ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, roedd hefyd yn amserol ystyried i ba raddau y mae dyhead y Ddeddf, sef sicrhau bod diogelu oedolion yn cael yr un statws â diogelu plant, wedi cael ei gyflawni.

Ar y cyfan, fodd bynnag, os yw'n dal yn anodd casglu gwybodaeth gymharol ddibynadwy yn effeithiol er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd mewn perthynas â phlant, mae'n ymddangos ei bod ddwywaith yn anoddach gwneud hynny mewn perthynas ag oedolion. Felly, mae unrhyw ymgais i asesu'n effeithiol i ba raddau y mae diogelu oedolion wedi cael statws cyfwerth yn fras, o'i gymharu â diogelu plant, yn annhebygol o gynnig atebion defnyddiol.

Serch hynny, cafwyd rhai arwyddion cynnar defnyddiol iawn o symud a datblygu yn ystod y 6-9 mis diwethaf (adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn) a oedd yn gosod meincnodau clir o ran casglu data, nodi amcanion mesuradwy yn fras ar gyfer cryfhau gwaith diogelu oedolion yn gyffredinol ac o ran deall yn well beth yw'r ffactorau sy'n effeithio ar y risg o gam-drin oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys dyfodiad cyfres o fesuriadau perfformiad Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 24, ac yn fwy diweddar, cyhoeddi **Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru i Atal Cam-drin Pobl Hŷn**. Mae Partneriaeth y Bwrdd Cenedlaethol a Phrifysgol Metropolitan Manceinion hefyd wedi darparu gweithdai yn ystod y flwyddyn, i rannu'r hyn a ddysgwyd o adolygiad pen-desg o lenyddiaeth am yr hyn sy'n 'hysbys' am arferion diogelu oedolion. Er i'r datblygiadau ddod i'r amlwg tua diwedd y cyfnod o 10 mlynedd ers cyflwyno'r Ddeddf, maent i'w croesawu, ac maent yn arwydd o resymau i fod yn obeithiol bod yr agenda yn awr yn elwa o sylw hirddisgwyliedig.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Bwrdd hefyd yn aros am ganlyniad Adolygiad Thematig wedi'i arwain gan ymchwil o'r Adolygiadau Ymarfer Oedolion hynny, a gynhaliwyd dros y 2+ flynedd diwethaf, yng Nghymru, a chyhoeddi'r adolygiad hwnnw; mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud yn rhan o Bartneriaeth Ddiogelu Strategol y Bwrdd Cenedlaethol a Phrifysgol Metropolitan Manceinion. Yn rhan o'r gwaith cwmpasu a wnaed yng nghyswllt yr Adolygiad hwnnw, cytunodd y bartneriaeth i gydweithio â'r Athro Michael Preston-Shoot a'r Athro Suzy Braye, yng ngoleuni eu hadolygiad diweddar o dros 600 o achosion tebyg yn Lloegr. Mae hyn eisoes wedi esgor ar waith dysgu trosglwyddadwy amhrisiadwy i Gymru, er bod llawer o'r hyn a ddysgwyd yn peri pryder.

**Sganio'r gorwel**

Rhan bwysig o weithgarwch y Bwrdd yw cadw golwg ar faterion sy'n dod i'r amlwg mewn meysydd polisi eraill a thu hwnt i ffiniau Cymru a allai fod yn arwyddocaol i ddiogelu yng Nghymru.

Yr hyn sy'n berthnasol yma yw ein haelodaeth o **Rwydwaith Diogelu'r Pum Gwlad** (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Iwerddon a'r Alban) sy'n cynllunio, yn cynnal ac yn cyflwyno rhaglen o waith polisi perthnasol drwy gydol y flwyddyn. Er bod holl aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol wedi mynychu digwyddiadau a drefnwyd gan y rhwydwaith, rhan braidd yn oddefol y mae Cymru wedi'i chwarae yng ngwaith y rhwydwaith yn ystod dau dymor diwethaf y Bwrdd ac mae hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu cyfyngiadau o ran capasiti ac amser y Bwrdd Cenedlaethol. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod gan Gymru lawer i'w rannu yng nghyd-destun y Pum Gwlad ac y byddai'n briodol i'r Bwrdd Cenedlaethol chwarae mwy o ran wrth hwyluso neu gyfrannu gwaith dysgu o Gymru ledled y DU ac Iwerddon, yn ddibynnol ar adnoddau.

Fodd bynnag, roedd aelodau'r Bwrdd wedi gallu mynychu (yn rhithiol) **Cynhadledd Ryngwladol Gyntaf Diogelu Oedolion ym mis Hydref 2023** yn Nulyn, a gynhaliwyd gan yr Ysgol Nyrsio a Bydwreigiaeth, Coleg y Drindod Dulyn. Roedd y gynhadledd hon a ariannwyd gan y Bwrdd Ymchwil Iechyd yn edrych ar faterion cyfredol ym maes diogelu oedolion yn Iwerddon ac yn rhyngwladol. Roedd y gynhadledd yn gyfle i'r rhai a oedd yn bresennol gyfranogi'n frwd gyda'r cyflwynwyr yn ystod y prif gyflwyniadau a'r sesiynau a oedd yn cyd-redeg â nhw.

**Roedd y prif gyflwyniadau'n cynnwys:**

**Cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol rhyweddol:** Cam-drin oedolion hŷn yn rhywiol mewn cyfleusterau gofal hirdymor (Thomas Goergen, Prifysgol Heddlu'r Almaen, Muenster, yr Almaen).

**Sesiynau ar gapasiti a gwneud penderfyniadau**, rôl eiriolaeth ym maes diogelu oedolion.

**Bylchau deddfwriaethol ym maes diogelu oedolion yn Iwerddon; a'r daith ddiogelu hyd yma yn Lloegr** (Dr Gillian Manthorpe).

Gellir gweld prif sesiynau'r Gynhadledd ar You Tube drwy chwilio am "Inaugural International Adult Safeguarding Conference on Friday 27th October 2023".

## Gwrando ar blant ac oedolion

Yn rhan o'i ddyletswydd gyffredinol i adrodd ar ddigonolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Cenedlaethol "*ymgynghori â'r rhai y gallai trefniadau i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghymru effeithio arnynt." (Adran 133 (2) (d) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Hyd yma, mae capasiti'r Bwrdd yn ei gwneud yn afrealistig ceisio proses wirioneddol gynhwysfawr neu ystyrlon o ymgysylltu'n uniongyrchol â phoblogaeth mor eang ac amrywiol neu i ganfod grŵp sy'n gynrychioliadol mewn modd cydlynol i gynrychioli ystod mor amrywiol o brofiadau. Felly, mae'r Bwrdd o reidrwydd yn dibynnu ar gasglu negeseuon o'r fath o weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhelir gan Fyrddau Rhanbarthol a'u haelod-asiantaethau ac eraill, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Mae tystiolaeth dda yng nghorff yr adroddiad hwn fod gwaith ymgysylltu Byrddau Rhanbarthol â'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau diogelu ataliol ac amddiffynnol, yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am yr hyn sy'n helpu a'r hyn y gallai asiantaethau ei wneud yn well. Serch hynny, mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol 'gwrando' ar blant ac oedolion yr effeithir arnynt, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda'r Byrddau Rhanbarthol i gefnogi adborth defnyddwyr gwasanaeth drwy dynnu sylw at hyn fel un o'r Pum Maes Allweddol ar gyfer effeithiolrwydd diogelu.

# **Dyletswydd Strategol 3 y Bwrdd Cenedlaethol:** Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (A.132 (2)).

Mae trefniadau'r Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer rhwydweithio â'r gymuned ddiogelu broffesiynol yn ei hystyr ehangaf ar draws Cymru gyfan yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am faterion cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg. O'i gymryd gyda'r wybodaeth lai moel hon, mae capasiti'r Bwrdd Cenedlaethol i gomisiynu ymchwil annibynnol ddibynadwy wedi chwarae rôl gynyddol bwysig o safbwynt amlygu meysydd lle mae angen newid rhaglenni, systemau neu bolisi, gan gynnwys y meysydd lle mae gan lywodraeth rôl hollbwysig i'w chwarae.

## Argymhellion blaenorol i Weinidogion a'r cynnydd a wnaed hyd yma

Gyda chytundeb y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd unrhyw argymhellion a wnaed yn flaenorol gan y Bwrdd Cenedlaethol yn dal i gael eu cynnwys yn ein hadroddiadau blynyddol nes y byddant wedi'u cwblhau, fel y cytunwyd.

## Adroddiad blynyddol 2020-2021

*Argymhelliad*

*"Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn deall effaith a gwaddol y pandemig COVID-19 o safbwynt diogelu yng Nghymru. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022. "*

*Diweddariad gan Lywodraeth Cymru –* ***YN PARHAU***

Fel yr adroddwyd y llynedd, mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni'n rhan o ymchwiliad cenedlaethol ehangach o lawer, ac mae'n annhebygol y bydd yn esgor ar ganfyddiadau perthnasol am dipyn o amser.

## Adroddiad blynyddol 2021-2022

*Argymhelliad*

*Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru (Rhaglen y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol) "Erbyn diwedd 2022, bydd argymhellion wedi deillio o'r gwaith a gwblhawyd. Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn argymell y dylid cydweithio â'r Dirprwy Weinidog ac â rhanddeiliaid allweddol i symud yr argymhellion hynny yn eu blaen yn ystod y flwyddyn sydd i ddod."*

*Argymhelliad*

*"Yng ngoleuni pryderon cenedlaethol am ddiffygion yn y gweithlu, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn argymell y dylid cefnogi camau i gynnwys data am y gweithlu yn y prototeip o'r fframwaith perfformiad amlasiantaeth cenedlaethol er mwyn sicrhau gwaith monitro cyson ac ystyried atebion posibl i leihau'r effaith ar arferion diogelu."*

***Diweddariad gan y Bwrdd Cenedlaethol / Llywodraeth Cymru***

Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu yn cael eu hadlewyrchu yn "5 Maes Allweddol Effeithiolrwydd Diogelu" a drafodir ar dudalennau 5 a 9 yr adroddiad hwn. I bob pwrpas, mae gwybodaeth am sut mae Partneriaid Rhanbarthol yn cofnodi, yn dadansoddi ac yn monitro patrymau o ran y gweithlu diogelu bellach wedi'i sefydlu fel un o'r 5 Cwestiwn Allweddol y mae'n ofynnol i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol roi sylwadau arnynt yn eu Hadroddiadau Blynyddol. Nid yw hyn wedi arwain at set ddata genedlaethol gydlynol ar y gweithlu diogelu er y deellir bod hyn yn rhywbeth y mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gweithio arno ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Cymru.

*Mae'r argymhelliad* ***WEDI'I GWBLHAU AC YN DESTUN GWAITH DATBLYGU PARHAUS***

# Argymhellion i Weinidogion 2023-2024

## 1. Rhaglen Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cymeradwyo dau blatfform newydd sydd wedi'u datblygu mewn partneriaeth â chydweithwyr o Brifysgol Metropolitan Manceinion. Y ddau gynnyrch dan sylw, sy'n gysylltiedig â'i gilydd, yw'r **Fframwaith Perfformiad Diogelu Cenedlaethol i Gymru**, a ategir gan fodel cynhwysfawr, sef y **Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu, Y 12 Elfen**.

Wrth gymeradwyo'r modelau newydd hyn i Lywodraeth Cymru a phob asiantaeth ddiogelu, mae'r Bwrdd yn cydnabod eu bod yn fframweithiau gwirfoddol ac mai mater i bartneriaid rhanbarthol a phartneriaid eraill yw penderfynu i ba raddau y byddant yn eu mabwysiadu. Er hynny, bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio'r dogfennau hyn fel sylfaen ar gyfer ailwampio ei Adroddiadau Blynyddol ei hun ar gyfer 2023-24 a 2024-25 a bydd yn gofyn am ddata pendant, sy'n dangos perfformiad, gan bob un o'r 6 Bwrdd Rhanbarthol yn ystod yr un cyfnod.

**Argymhellir** bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r gwaith parhaus sy'n gysylltiedig â'r prosiectau datblygu hyn, a gyflawnir ar hyn o bryd gyda chydweithwyr yn ardaloedd y 6 Bwrdd Rhanbarthol a gyda swyddogion yn Llywodraeth Cymru.

**Safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru, darparwyd ym mis Hydref 24**

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion gan sicrhau hefyd bod elfennau eraill o gasglu data, er enghraifft, casglu data awdurdodau lleol sy'n ymwneud â diogelu, yn cael eu hystyried. I'r perwyl hwn, mae swyddogion wedi cysylltu'r Bwrdd a Phrifysgol Metropolitan Manceinion â'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth. Yn ogystal, mae gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu setiau data ynghylch cam-drin plant yn rhywiol gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol hefyd wedi cael ei rannu â'r Swyddfa Genedlaethol a Phrifysgol Metropolitan Manceinion.

Mae model cydgyfrifoldeb y 12 Elfen wedi cael ei argymell i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ac mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi cynnwys hyn yn rhan o'u mecanweithiau adrodd blynyddol. Mae angen rhagor o waith gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Cenedlaethol i sicrhau bod hyn wedi'i wreiddio'n dda ar ôl y flwyddyn gyntaf. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r gwaith hwn gyda'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

## 2. Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth - Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru 2022/23, Hydref 2023, Yr Athro Michelle McManus; Emma Ball. Prifysgol Metropolitan Manceinion.

Fel comisiynydd yr adroddiad thematig pwysig hwn, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cymeradwyo ei 11 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, ac yn benodol i bob asiantaeth ac unigolyn sy'n ymwneud ag ymarfer diogelu.

**Argymhellir:**

2.1 Bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo canfyddiadau'r adroddiad hwn ac yn cefnogi camau i weithredu'r 11 argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad.

**Safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru, darparwyd ym mis Hydref 24**

*Rydym yn nodi bod hwn yn argymhelliad i Lywodraeth Cymru yn yr Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol mai Byrddau Diogelu Rhanbarthol fydd yn gweithredu'r 11 argymhelliad. Mae Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn mynychu cyfarfodydd gyda Rheolwyr Busnes a Chadeiryddion Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac yn arsylwi yng nghyfarfodydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.*

*Mae'r adroddiadau blynyddol gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cael eu rhannu â'r Bwrdd Cenedlaethol a byddant yn rhoi manylion am sut maent wedi gweithio i gyflawni'r argymhellion yn yr adroddiadau perthnasol.*

*Fodd bynnag, teimlwn y gallai'r wybodaeth ychwanegol ganlynol fod o gymorth.*

*Mae argymhelliad 3.1 yr Adolygiad Thematig yn ymwneud â gwella ansawdd Adolygiadau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddatblygu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, Storfa Cymru a reolir gan Brifysgol Caerdydd a'r Canllawiau newydd ar gwblhau adolygiadau. Lansiwyd yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ar 1 Hydref 2024. Mae Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol yn aelod o Grŵp Strategaeth yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Mae Tîm yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl wedi mynychu Cyfarfodydd Bwrdd y Bwrdd Cenedlaethol i roi diweddariadau.*

*O 1 Hydref ymlaen, bydd unrhyw ddigwyddiadau sy'n bodloni'r trothwy ar gyfer Lladdiad Domestig, Lladdiad Iechyd Meddwl, Lladdiad ag Arf Ymosodol, Adolygiad Ymarfer Plant neu Adolygiad Ymarfer Oedolion yn cael eu rheoli dan broses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl newydd.*

*Pwrpas y cyfarfodydd hyn fydd rhannu gwybodaeth am yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl newydd ac Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion parhaus; ystyried ansawdd; nodi materion y mae angen i Grŵp Strategaeth yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ac, o bosibl y Bwrdd Cynghori Gweinidogol, gael gwybod amdanynt; sicrhau bod Gweinidogion yn cael eu briffio'n brydlon ac yn gywir.*

*Mae argymhelliad 3.2 yn ymwneud â datblygu porth atgyfeirio wedi'i awtomeiddio y gall pob asiantaeth ei ddefnyddio.*

*Cyfeiriwyd yn gyson at rannu gwybodaeth yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion drwyddi draw fel maes dysgu. Mae'r materion a nodwyd o ran rhannu gwybodaeth yn amrywiol ac nid â phroses atgyfeirio sydd wedi'i galluogi gan dechnoleg yn unig y maent yn gysylltiedig. Er bod manteision porth atgyfeirio wedi'u deall, byddai datblygu system o'r fath heb system ehangach amlasiantaeth yn cyfyngu ar gyflawniadau system o'r fath.*

*Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhannu gyda'r Bwrdd Cenedlaethol y gwaith a wnaed eleni gan Iechyd, sydd wedi cwblhau Adolygiad o Gryfhau Diogelu ym maes Iechyd. Mae atebion technolegol yn cael eu treialu yng Nghymru sy'n edrych ar sut y gellir casglu data o nifer o systemau i greu dangosfwrdd amlasiantaeth i gefnogi rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau.*

*Argymhelliad 3.3: Mae'r Protocol 'Heb ei Hebrwng' ar y cynllun gwaith ar gyfer y Gwasanaethau Diogelu yn y GIG i'w adolygu a bydd angen gofyn am ddiweddariad pellach ganddynt ar ôl cwblhau'r gwaith hwn.*

*Argymhelliad 3.4: Cofnodi ac arweiniad ynghylch esgeulustod ac amodau yn y cartref. Mae egwyddorion yr argymhelliad wedi'u cytuno a'u deall. Mae'r manylion yn yr argymhelliad yn ymwneud â Byrddau Diogelu Rhanbarthol, awdurdodau lleol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.*

*Mae'r holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru lle caiff canllawiau ac arweiniad cenedlaethol eu datblygu a'u cytuno. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn aelodau o'r Bwrdd Prosiect ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid yn flynyddol ar gyfer datblygu Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan.*

*Argymhelliad 3.5: Gweithredu'r 12 Elfen fel fframwaith arweiniad a phecyn cymorth archwilio. Mae hyn wedi cael ei ateb uchod o dan Argymhelliad 1 Adroddiad Blynyddol 2022-2023.*

# Argymhellion i Weinidogion 2024

Mae'r Bwrdd wedi cytuno bod yr argymhellion a wnaed i Weinidogion ym mis Rhagfyr y llynedd, yn Adroddiad 2022-23, eisoes yn darparu agenda sylweddol o ran gwella polisïau a rheoli newid, ac mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen at ymateb y Gweinidog, flwyddyn yn ddiweddarach. Felly, penderfynodd y Bwrdd mai dim ond un argymhelliad ychwanegol oedd yn codi o flwyddyn 2023-24.

**Rôl, cwmpas a chylch gwaith y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

Ers peth amser, mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi bod yn casglu barn a gwybodaeth am effeithiolrwydd trefniadau llywodraethiant Cymru gyfan a pholisïau ac arferion cysylltiedig.

O ganlyniad, mae'r Bwrdd wedi gallu ychwanegu gwerth sylweddol at ddealltwriaeth fwy cyflawn o arferion ac effeithiolrwydd diogelu yng Nghymru, dros ddau dymor diwethaf y Bwrdd. Cyflawnwyd hyn drwy amrywiaeth o weithgareddau datblygu parhaus a strategol gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol allweddol ar sail gydweithredol gadarn; dull gweithredu sydd wedi'i groesawu'n eang ac sydd wedi galluogi'r Bwrdd i sefydlu lefel sylweddol o hyder ac ymddiriedaeth yn y "Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol" fel endid cenedlaethol adeiladol ac effeithiol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd hefyd o'r farn bod hyn wedi'i gyflawni er gwaethaf, yn hytrach nag oherwydd strwythur a chapasiti presennol y Bwrdd Cenedlaethol, fel y'i lluniwyd tua 10 mlynedd yn ôl, dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Bwrdd hefyd yn ymwybodol iawn o'r galw gan brif weithwyr proffesiynol ym maes diogelu am fwy o eglurder yn genedlaethol, mewn perthynas â llywodraethiant cyffredinol ac am ymdeimlad cliriach o gyfeiriad cenedlaethol cyffredinol mewn meysydd polisi allweddol (e.e. deall perfformiad ac effeithiolrwydd). Mae hefyd yn amlwg, o'n rhaglen o ddigwyddiadau diogelu cenedlaethol a rhanbarthol, bod awydd amlwg ar draws cymuned ddiogelu Cymru am barhad yn y daith fwy hirdymor o ran ymchwil, dysgu a datblygu y mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu fel partner proffesiynol dibynadwy. Wedi dweud hynny, mae'r Bwrdd yn dal i bryderu nad yw'r gweithgareddau y mae wedi ymwneud â nhw a'u cynnal, er gwaethaf cyfyngiadau o ran adnoddau a chapasiti'r Bwrdd, yn gynaliadwy o dan y model presennol. Nid yw hyn yn awgrymu bod angen cynnydd sylweddol mewn adnoddau er mwyn sicrhau model cynaliadwy. Yr hyn y mae'n ei awgrymu, fodd bynnag, yw bod angen ychydig o adnoddau a chapasiti ychwanegol ac ychydig o waith i ail-lunio rôl, cwmpas a swyddogaeth y Bwrdd.

Mae'n amserol felly, a hithau'n 10  mlynedd ers cyflwyno'r Ddeddf ac yn rhyw 7 mlynedd a mwy ers sefydlu'r Bwrdd Cenedlaethol cyntaf, adolygu a yw'r Bwrdd Cenedlaethol Annibynnol a'i ystod o weithgareddau a dyheadau cyfredol, yn briodol ac yn gynaliadwy.

**Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad ffurfiol o rôl, cwmpas a chylch gwaith y Bwrdd Cenedlaethol**, mewn ymgynghoriad agos ag aelodau presennol y Bwrdd Cenedlaethol, gyda'r bwriad o adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma a'i wella.

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Dysgwch fwy

www.bwrdddiogelu.cymru

@NISBwales

safeguardingwales